# GREEN, FRANCIS (1854 - 1942), hynafiaethydd

**Enw:** Francis Green
**Dyddiad geni:** 1854
**Dyddiad marw:** 1942
**Rhiant:** Elizabeth Green (née Harries)
**Rhiant:** Francis Green
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** John James Evans

Ganwyd yng Nghaerfyrddin 15 Rhagfyr 1854, yn fab hynaf i Francis Green, Oaklands, a'i briod Elizabeth Harries o Dre-facwn, gerllaw Tre-fin, ac addysgwyd mewn ysgol Forafaidd ym Mhen-dain, yn ysgol y Siapter yn Nhyddewi, ac yn ysgol Amwythig. Wedi astudio'r gyfraith yn Llundain a gweithio yn swyddfa'i dad, ymfudodd yn 1878 i Ganada, lle y bu'n ffermio nes dychwelyd i Lundain yn 1892 i weithio yn swyddfa'r *Financial Times*. Ymneilltuodd i Dyddewi yn 1907, a bwriodd weddill ei oes faith mewn ymchwiliadau hynafiaethol, gan ennill bri mawr ynddynt. Golygodd y *West Wales Historical Records*; lluniodd galendrau o'r *Coleman Deeds* (1921), *Crosswood Deeds* (1927) a'r *Hawarden Deeds* (1931) yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond erys ei galendr o ddogfennau Peniarth heb ei gyhoeddi; a chyfrannodd bapurau pwysig ar hanes Sir Benfro i'r *Cymmrodor* ac i *Drafodion* y Cymmrodorion. Y mae llawer o'i lawysgrifau yn llyfrgell sir Benfro yn Hwlffordd a chopïau yn y Llyfrgell Genedlaethol. Bu farw 6 Awst 1942, yn Nhyddewi.

## Awdur

**John James Evans**, (1894 - 1965)

## Ffynonellau


Gwybodaeth gan ei nith, Miss Green o Dyddewi, a chan lyfrgellydd sir Benfro yn Hwlffordd

adnabyddiaeth bersonol


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [73624347]

Wikidata: [Q20746781]


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu